

routes into LANGUAGES
Llwybrau at ieithoedd
CYMRU

# CANLLAWIAU HYRWYDDO IEITHOEDD MODERN

**Eu pwysigrwydd o ran datbygu gyrfa – o safbwynt busnes**

**i Lywodraethwyr Ysgolion**

# RHAGARWEINIAD

Mae pwysigrwydd ieithoedd i economi'r wlad yn ddigon hysbys. Cewch wybodaeth allweddol am hyn yn Offeryn Archwilio'r Llywodraethwyr. Felly, mae'n bwysig iawn bod yr yr ysgolion, yr uwch reolwyr, a'r cyrff llywodraethu'n hyrwyddo ieithoedd i'r disgyblion a'r rhieni.

Gall y corff llywodraethu chwarae rhan allweddol yn hynny. Mae gan y corff llywodraethu ynghyd â'r pennaeth rôl a chyfrifoldeb i sicrhau bod y disgyblion yn cael mynediad at gwricwlwm eang a pherthnasol a'u bod yn derbyn addysg sy'n eu paratoi ar gyfer y dyfodol. Mae hynny'n bwysicach nag erioed a'r ysgolion uwchradd yn paratoi ar gyfer y Cwricwlwm Newydd. Mae'n hanfodol bod ieithoedd yn rhan annatod o'r ddarpariaeth ac na chânt eu colli.

Mae angen gwneud disgyblion a rhieni'n ymwybodol o berthnasedd a phwysigrwydd astudio iaith. Mae trafodaethau gyda busnesau blaenllaw yn ffordd allweddol o wneud hyn.

**Y Cyngor Prydeinig, Y Cyngor Prydeinig (2017) - Negeseuon allweddol ynghylch sgiliau iaith:**
*"Mae angen ieithoedd eraill nid yn unig ar gyfer llwyddiant yn yr economi byd-eang, mae eu hangen hefyd i feithrin ymddiriedaeth, dyfnhau dylanwad rhyngwladol a pherthnasoedd diwylliannol, ac i gadw'r wlad yn ddiogel."*
*"Bydd gallu poblogaeth ein gwlad i ymgysylltu'n rhyngwladol yn ganolog i gryfhau perthnasoedd economaidd, gwleidyddol, diwylliannol a phobl-i-bobl llwyddiannus yn Ewrop ac yn fyd-eang yn y blynyddoedd sydd i ddod."*



# CEFNOGI EICH ADRAN IEITHOEDD MODERN I HYRWYDDO IEITHOEDD – RHAI AWGRYMIADAU I'CH HELPU CHI

Bydd yr awgrymiadau canlynol o gymorth i'r corff llywodraethu gefnogi ieithoedd:

## 1. Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ieithoedd ym myd gwaith yn y Corff Llywodraethu – mewn partneriaeth â busnesau:

Gwnewch hyn drwy gysylltu â Llwybrau at Ieithoedd Cymru: (info@routesintolanguagescymru.co.uk)

a. Trefnu cyflwyniad byr (ar-lein) gan un o'r cwmnïau canlynol ar bwysigrwydd ieithoedd:

- **Capital Law**
- **Ruth Lee**
- **Y Bathdy Brenhinol**
- **Lara Davies-Jones - Rheolwr Canolfan Talentau EMPOWER translate, asiantaeth leoleiddio ymchwil marchnad unigryw**
- **Wolfestone**

**Neu**

b. Defnyddio'r fideo a gyflwynwyd gan gwmnïau ynglŷn â phwysigrwydd ieithoedd ar ddechrau cyfarfod y llywodraethwyr i godi ymwybyddiaeth ac i sbarduno deialog.

**Gellir dilyn hyn gyda thrafodaeth am y ffordd ymlaen**:

- Defnyddiwch y Pecyn Cymorth i Lywodraethwyr a'r Canllawiau Arfer Da i bennu 'iechyd' yr ieithoedd yn eich ysgol chi ac i baratoi at y Cwricwlwm Newydd.
- Penodwch Lywodraethwr Cyswllt ar gyfer ieithoedd i gysylltu â'r Adran Ieithoedd Modern ac i drafod cysylltiadau busnes i hyrwyddo ieithoedd

## 2. Consider existing business links that exist in the Governing Body and elsewhere:

- Gall Llywodraethwr Cyswllt yr Adran Ieithoedd Modern ganfod y cysylltiadau busnes sydd gan y llywodraethwyr ac a yw ieithoedd yn rhan o waith beunyddiol y cwmnïau hynny.
- Gellir rhannu'r rheini a'u trafod gyda'r Adran Ieithoedd Modern.



## 3. Gofynnwch i'r Uwch Reolwyr:

- Ofyn i staff yr ysgol a oes ganddynt gysylltiadau 'personol' â busnesau yn ogystal â chysylltiadau allanol trwy eu hadran/pwnc.
- Gofynnwch i'r rhieni a ydyn nhw'n gallu helpu datblygu ieithoedd trwy ddarparu cysylltiadau busnes neu drwy unrhyw ddull arall e.e. darparu sesiynau sgwrsio.

## 4. Ystyriwch sut y gallwch chi gymryd rhan mewn digwyddiad hyrwyddo a ddarperir gan yr Adran Ieithoedd Modern:

Bydd yr Adran Ieithoedd Modern yn ystyried rhai o'r canlynol wrth drefnu digwyddiadau:

- pa grŵp blwyddyn i'w gynnwys a pham
    - Blwyddyn 7 i feithrin pwysigrwydd ieithoedd a diwylliant ac i ddangos perthnasedd
    - Blwyddyn 8 cyn eu dewisiadau TGAU
    - Blwyddyn 10 cyn eu dewisiadau Lefel A
- nifer y disgyblion dan sylw
- dewisiadau sector busnes (e.e. lletygarwch, gweithgynhyrchu, gwyddoniaeth, ac yn y blaen)
- manylion busnesau lleol
- mathau o weithgareddau a digwyddiadau hyrwyddo (ar-lein o bosibl ar hyn o bryd):
    - galwad fideo/zoom byr gyda pherson busnes gyda gweithgaredd dilynol sy'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm Newydd
    - clip fideo byr o berson busnes lleol yn disgrifio pwysigrwydd ieithoedd ac yna bydd trafodaeth a gweithgaredd yn y dosbarth
    - adigwyddiad ar-lein a gyflwynir gan fusnes mewn partneriaeth â'r athro
    - digwyddiad ar-lein a ddarperir gan SeeScience sy'n hyrwyddo gwyddorau ac ieithoedd
    - carwsél o siaradwyr, ar-lein, i siarad am amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth lle mae ieithoedd yn bwysig

## 5. Ystyriwch ffyrdd eraill y gallwch chi gynorthwyo'r Adran Ieithoedd Modern a'r disgyblion sy'n astudio ieithoedd yn eich ysgol e.e.

- cynnal gwersi sgwrsio iaith gyda'r disgyblion os ydych yn siarad iaith arall
- llywodraethwyr a rhieni sydd â sgiliau iaith i fod yn fodelau rôl ar gyfer dysgu iaith
- helpu creu partneriaethau dramor
- cyflwyno sesiwn ar bwnc a fyddai'n ysbrydoli disgyblion i barhau ag ieithoedd e.e. Ieithoedd a'r Gemau Olympaidd, Ieithoedd a Thwristiaeth.

# PROFFILIAU'R BUSNESAU SY'N CYMRYD RHAN

**Capital Law**

**Mae Capital Law yn ddarparwr blaenllaw o wasanaethau cyfreithiol masnachol i fusnesau ledled y Deyrnas Unedig, Ewrop a thu hwnt ac mae wedi'i leoli yng Nghaerdydd a Llundain. Ymunodd llawer o gyfreithwyr â'r cwmni o rai o gwmnïau cyfreithiol mwyaf y wlad, ac mae eraill wedi tyfu i fyny gydag ef. Maent yn gweithio gyda chleientiaid domestig, ond maent hefyd yn arwain trafodion rhyngwladol ar gyfer cleientiaid yn y Deyrnas Unedig a thramor.**

**Dyma rai o'r meysydd allweddol y mae'r cwmni'n ymdrin â nhw:**

- **bancio a chyllid**
- **troseddau busnes ac ymchwiliadau**
- **masnachol**
- **cyflogaeth**
- **amgylchedd**
- **yswiriant**
- **gwasanaethau ariannol**
- **adferiad ac ansolfedd**
- **cydraddoldeb ac amrywiaeth**

**Mae gweithwyr yn defnyddio eu sgiliau iaith yn rheolaidd yn eu swyddi, yn cynghori cleientiaid tramor yn eu hiaith eu hunain, gohebu â chyfreithwyr mewn gwledydd eraill a drafftio dogfennau dwyieithog.**



# PROFFILIAU'R BUSNESAU SY'N CYMRYD RHAN

**Lara Davies-Jones**

**Lara Davies-Jones - Rheolwr Canolfan Talentau sy'n gweithio gydag EMPOWER translate, asiantaeth leoleiddio ymchwil marchnad unigryw.**

**Mae Lara'n gyfrifol am reoli a meithrin eu tîm allanol o ieithyddion/partneriaid ieithyddol, a sicrhau eu bod yn bodloni gofynion ieithyddol y busnes.**

**Bu dysgu ieithoedd a'u defnydd yn allweddol i'w llwyddiannau proffesiynol a phersonol.**

**Wolfestone**

**Asiantaeth gyfieithu broffesiynol yn y Deyrnas Unedig yw Wolfestone. Mae'n cynnig gwasanaethau iaith mewn marchnata, meddygol, TG, cyllid, cyfreithiol, a mwy. Mae eu tîm o ieithyddion arbenigol a rheolwyr project profiadol yn gweithio gyda phob diwydiant, mewn dros 220 o ieithoedd.**

**Mae Wolfestone ymhlith y pum cwmni cyfieithu sy'n tyfu gyflymaf yn y Deyrnas Unedig a'r cwmni cyfieithu mwyaf yng Nghymru; roedd boddhad eu cwsmeriaid yn 99.15% yn 2019.**

**'O ddeunyddiau marchnata rhyngwladol i ddogfennau hanfodol i fusnes, papurau gwyn a llawlyfrau; mae bob amser yn hanfodol cyfathrebu yn yr iaith, y tôn a'r llais cywir.'**

# PROFFILIAU'R BUSNESAU SY'N CYMRYD RHAN

## Y Bathdy Brenhinol

**Mae i'r Bathdy Brenhinol (RM) hanes o fwy na 1,100 o flynyddoedd. Dyma fathdy allforio mwyaf blaenllaw'r byd. Mae'n gwneud mwy na 3.3 biliwn o ddarnau arian a blanciau a medalau ar gyfer cyfartaledd o 60 o wledydd bob blwyddyn. Mae safle'r Bathdy yn Llantrisant, hefyd yn un o'r cyfleusterau bathu mwyaf a mwyaf datblygedig o ran techneg yn y byd. Er mai ei gyfrifoldeb cyntaf yw gwneud a dosbarthu darnau arian y Deyrnas Unedig yn ogystal â chyflenwi blanciau a medalau swyddogol, mae'r Bathdy Brenhinol yn darparu amrywiaeth o nwyddau a gwasanaethau, gan gynnwys:**

- **gwasanaethau casglu a niwmismatig**
- **anrhegion a nwyddau dathlu**
- **cyfleoedd buddsoddi (gan gynnwys bariau metel gwerthfawr a buddsoddiadau digidol)**
- **darganfod ac addysg (gan gynnwys canolfan arobryn Profiad y Bathdy Brenhinol), a**
- **cynaliadwyedd (gan gynnwys cloddio am fetelau gwerthfawr o wastraff electronig).**



# PROFFILIAU'R BUSNESAU SY'N CYMRYD RHAN

**Ruth Lee**


Mae Ruth Lee yn ddarparwr blaenllaw byd-eang o fanicinau byw iawn a chymhorthion hyfforddi i arbenigwyr hyfforddi achub ledled y byd:

- Gwasanaeth Tân ac Achub
- Gwasanaeth yr Heddlu
- Parafeddygon
- Y Weinyddiaeth Amddiffyn
- Meysydd Awyr
- Sefydliadau Badau Achub Cenedlaethol a Gwylwyr y Glannau
- Gweithredwyr alltraeth
- Llu o Gyrff Chwilio ac Achub Rhyngwladol

Maen nhw'n cynhyrchu manicinau hyfforddi achub ers chwarter canrif ac yn arbenigo mewn gwneud hyfforddiant mor realistig ag y gall fod. Maent yn cael eu cydnabod heddiw fel arweinydd amlwg y farchnad yn y Deyrnas Unedig ac Ewrop. Maent yn gwerthu i fwy na 50 o wledydd ac maent yn allforio tua 70% o'u cynhyrchion. Yn ddiweddar enillodd y cwmni Wobr y Frenhines am Fenter-Masnach Ryngwladol.

Mae rhai o weithwyr y cwmni'n gallu cyfathrebu â'u cleientiaid rhyngwladol mawr yn eu hiaith eu hunain, sydd mor bwysig, yn ôl eu Prif Swyddog Gweithredol. Byddai ymgeiswyr â sgiliau iaith bob amser yn cael eu ffafrio ar gyfer rolau newydd, yn enwedig o ran gwerthu a marchnata.





routes into LANGUAGES

Llwybrau at ieithoedd CYMRU

**Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:**

**Llwybrau at Ieithoedd Cymru**

**Gwefan: www.routesintolanguagescymru.co.uk**
**Ebost: info@routesintolanguagescymru.co.uk**
**Twitter: @RoutesCymru**

